| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Cynllun Tai Gwag Tasglu'r Cymoedd |
| **Diben y papur:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran cymryd cam un o Gynllun Tai Gwag Tasglu'r Cymoedd a gwahodd trafodaeth ar gam dau. |
| **Camau sydd eu hangen:** | Gofynnir i aelodau'r tasglu ystyried a thrafod cam dau. Yn benodol:<br>• P'un ai'r agweddau rydym yn cynnig eu cynnwys yw'r rhai cywir?<br>• Beth arall y gallem ei ystyried?<br>• Sut y gallwn sicrhau bod hyn yn llwyddiant, a bod pobl a busnesau yn y cymunedau hyn yn cael budd o'r cynllun hwn? |
| **Papur a baratowyd gan:** | Laurie Hayward, Uwch-reolwr Cyflawni a Thystiolaeth Tasglu'r Cymoedd, Llywodraeth Cymru |

Cyfarfu Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth yn ddiweddar â'r Gweinidog Tai, i drafod a chytuno ar gynnig i gyflwyno cynllun Tai Gwag RhCT ledled awdurdodau lleol eraill tasglu'r Cymoedd. Trafodwyd hyn fel thema a ffocws newydd yng nghyfarfod diwethaf y tasglu.

Cynhaliwyd cyfarfodydd bellach â phob arweinydd awdurdod lleol lle mae'r Dirprwy Weinidog wedi bod yn trafod model RhCT, a ph'un a yw hwn yn rhywbeth a fyddai o ddiddordeb iddynt. Mae wedi cael derbyniad da.

Cafodd cynllun presennol RhCT ei gynnwys fel papur i'w drafod yng nghyfarfod diwethaf y tasglu. Hoffai'r Dirprwy Weinidog fod mewn sefyllfa i gyhoeddi'r cynllun ym mis Gorffennaf 2019 gan ei gyflwyno o fis Medi i fis Hydref 2019.

Yn unol â'r trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y tasglu rydym yn bwriadu defnyddio cynllun RhCT fel model y byddwn yna'n ei addasu a'i ddiwygio i ystyried sawl ffactor arall, megis fframwaith cyflenwi lleol, mesurau ôl-osod a mesurau effeithlonrwydd ynni eraill.

Oherwydd amserlenni a'r cyllid sydd ar gael eleni, rydym yn bwriadu cyflwyno cam un o'r cynllun peilot sef cynllun presennol RhCT gyda'r addasiadau awgrymedig canlynol yn unig i'r telerau ac amodau:

- Byddai angen i dai fod wedi bod yn wag ers 12 mis ac nid y 6 mis presennol;
- Gall perchenogion eiddo ond wneud cais am grant unwaith er mwyn osgoi landlordiaid / adeiladwyr yn elwa o hyn;
- Er y bydd yr uchafswm grant ar gyfer y cynllun hwn yn parhau i fod yn £20,000, bydd y cynllun Troi Tai'n Gartrefi presennol yn nodi o fewn ei delerau ac amodau os bydd angen cyllid ychwanegol, y gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r cynllun hwn i "ychwanegu" at y cais cychwynnol am grant.

Unwaith y cyflwynir cam un o'r cynllun peilot, bydd tîm tasglu'r Cymoedd yn parhau i weithio ar draws y llywodraeth ar yr agenda hon i ddatblygu cam dau. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae nifer o agweddau eraill yr hoffem eu cynnwys er mwyn cryfhau'r cynllun hwn a'i wneud yn fwy na sicrhau y caiff cartrefi eu defnyddio unwaith eto.

Fel blaenoriaeth ar gyfer cam dau rydym yn bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol sy'n gysylltiedig â sgiliau, prentisiaethau a chefnogi'r economi sylfaenol. Hoffem hefyd gynnwys mesurau ôl-osod a mesurau effeithlonrwydd ynni eraill.